Ysgolion YCA Cynradd Abertawe

Dydd Mercher 20fed Mawrth

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Sefydliad sy'n cynrychioli penaethiaid yn Abertawe yw YCA. Penodir aelodau o bob clwstwr ar draws Abertawe i gynrychioli barn penaethiaid mewn ystod eang o drafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol. Rydym yn ysgrifennu i dynnu eich sylw at yr heriau sylweddol y mae ein hysgolion cynradd yn eu hwynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â'n cyllideb a'r effaith ar y gwasanaethau a ddarparwn.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'r cyfyngiadau ariannol a'r sefyllfa gyllidebol ar gyfer holl ysgolion cynradd Abertawe yn mynd i fod yn anodd iawn a bydd yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae ansicrwydd a grymoedd allanol ariannol a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar allu ein hysgol i gynnal y safonau uchel o addysg a chefnogaeth yr ydym yn ymdrechu i'w cynnig i'n holl ddysgwyr.

Mae ffactorau allanol, gan gynnwys chwyddiant, costau ynni a chostau staffio uwch wedi cael effaith sylweddol ar wariant llywodraeth leol. Er bod cynnydd bach wedi bod yng nghyllideb addysg Cymru, mae'r gyfradd chwyddiant eithriadol o uchel wedi golygu toriad sylweddol. Mae'r setliadau cyllidebol ar gyfer ysgolion yn 2024/25 a thros y blynyddoedd nesaf yn debygol o fod yn heriol iawn wrth i wariant cyhoeddus ddod o dan bwysau cynyddol a pharhau i weld toriadau.

Mae Dinas a Sir Abertawe yn gwneud eu gorau i leddfu'r ergyd i ysgolion. Yn 23-24, gwnaeth yr Awdurdod Lleol un taliad o £6 miliwn i gefnogi cynnydd sylweddol mewn costau ynni mewn ysgolion. Mewn ymgais i gefnogi ysgolion ymhellach yn 24-25, mae'r Awdurdod Lleol yn anelu at ddod o hyd i £4.5 miliwn arall. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn talu am y cynnydd mewn costau i ysgolion yn llawn ac ni ellir ei gynnal yn y dyfodol. Tra bod Abertawe'n gweithio'n galed i gefnogi ysgolion, mae'n parhau i fod yn un o'r Awdurdodau Lleol gwaethaf o ran ariannuy addysg yng Nghymru.

Mae grantiau Llywodraeth Cymru y mae ysgolion wedi dod yn gyfarwydd â'u defnyddio fel rhan o'u 'cyllideb graidd' wedi'u gwarantu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, yn y dyfodol agos, mae'n bosibl y bydd rhai grantiau'n cael eu tynnu'n ôl yn gyfan gwbl, neu y bydd eu gwerth yn gostwng yn sylweddol. Yn ogystal, er eu bod wedi'u diogelu ar hyn o bryd, gallai costau ynni gynyddu eto yn y dyfodol oherwydd ansicrwydd byd-eang.

Mae hwn yn gyfnod digynsail o ran cyllid a chyllidebau ysgolion. Un o'r heriau mwyaf nodedig sy'n ein hwynebu yw cynnal cwricwlwm sy'n bodloni anghenion amrywiol ein holl ddisgyblion. Mae cyllidebau llai yn aml yn arwain at gyfyngiadau o ran adnoddau, staff a gweithgareddau allgyrsiol, a fydd yn cyfyngu ar ehangder ac ansawdd yr addysg yr ydym yn anelu at ei darparu. Gall hyn arwain at ddosbarthiadau mwy, mynediad cyfyngedig i gyrsiau arbenigol, a gostyngiad mewn rhaglenni cyfoethogi sy'n meithrin datblygiad cyfannol.

Bydd yr effaith a welwn mewn ysgolion yn amrywio o ysgol i ysgol, ond mae'n debygol o effeithio :

- Diswyddiadau yn arwain at lai o staff
- Dosbarthiadau mwy
- Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch ar gyfer absenoldeb athrawon
- Llai o deithiau ac ymweliadau
- Effeithir yn ddifrifol ar gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol
- Llai neu ddim cefnogaeth i ymyriadau llythrennedd a rhifedd
- Llai o gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion ymddygiad, gan arwain at fwy o aflonyddwch a gwaharddiadau
- Llai o gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion cymhleth mewn ysgolion prif ffrwd
- Llai o adnoddau i bob plentyn eu defnyddio
- Bydd atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a thiroedd yn dioddef
- Iechyd a diogelwch cyffredinol mewn ysgolion o ganlyniad i'r uchod i gyd
- Dyfarniadau negyddol gan Estyn o ganlyniad i lai o wasanaethau ac effaith uchod

Os bydd toriadau fel hyn yn digwydd yn eich ysgol, gofynnwn i chi gofio y bydd llawer o hyn allan o reolaeth y pennaeth a'r llywodraethwyr, ond yn rhan o ddiffyg ariannol ehangach.

Ymhellach, mae'n bosibl iawn y bydd yr angen i wneud arbedion yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau cymorth hanfodol o fewn yr ysgol a'r rhai a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol. Mae cwnsela, cymorth anghenion dysgu ychwanegol, cymorth iechyd meddwl, a gofal bugeiliol yn elfennau annatod o amgylchedd dysgu anogol. Fodd bynnag, gydag adnoddau cyfyngedig, byddwn yn ei chael yn fwyfwy heriol darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn ar eu lefelau presennol o ddarpariaeth.

Fel penaethiaid, byddwn bob amser yn gwneud ein gorau glas i gynnal y ddarpariaeth graidd yn ein hysgolion a diogelu addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn sicrhau pob rhiant a gofalwr y byddwn yn rhoi'r ystyriaeth lawn i unrhyw benderfyniad i dorri'n ôl ar y darpariaethau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn ein hysgolion. Fodd bynnag, credwn ei bod yn anochel, yn y tymor byr o leiaf, na fyddwn yn gallu darparu a chynnal yr un lefel o gymorth a gwasanaethau ar draws ein hysgolion.

Mae eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn yn amhrisiadwy. Rydym yn eich annog i apelio dros gyllid addysg a chefnogi mentrau sy'n ceisio diogelu ansawdd addysg i bob dysgwr. Yn ogystal, gall eich ymwneud â chymunedau ein hysgolion trwy fentrau gwirfoddoli neu godi arian wneud gwahaniaeth sylweddol wrth oresgyn yr heriau hyn.

Rydym yn wirioneddol falch o'r hyn rydym yn ei gyflawni yn Abertawe. Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus a gawn gan Awdurdod Lleol Abertawe, sydd ochr yn ochr â chynrychiolwyr penaethiaid Abertawe wedi gwneud cynrychiolaethau yn lleol ac yn genedlaethol i flaenoriaethu addysg. Fel ysgolion rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu'r profiad addysgol gorau posibl a chefnogaeth i'n holl ddysgwyr er gwaethaf y rhwystrau a wynebwn. Mae eich ymddiriedaeth a'ch partneriaeth barhaus gyda ni yn cael ei werthfawrogi'n fawr, wrth i ni ymdopi â'r cyfyngiadau ariannol heriol hyn gyda'n gilydd.

Byddwn yn sicr yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'ch hysbysu'n llawn, wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach yn dilyn cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru wrth iddynt gael eu cyhoeddi.

Yr eiddoch yn gywir,
Prifathrawon Cynradd Abertawe.